# Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Cymuned Ciliau Aeron a gynhaliwyd ar nos Iau 6ed o Hydref 2016 am 7.30 pm yn Neuadd Cilcennin

Yn bresennol: Y Cynghorydd Arwel Jones (Cadeirydd), y Cynghorwyr Helen Evans, Gwyn Jones, John Emrys Jones, John Lumley ac Iwan Thomas.
Denfer Morgan (Clerc).

## 43 Ymddiheuriadau

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Robert Davies, Dai Evans, Gwyndaf Morgan ac Aneurin Roberts am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

## 44 Materion Personol

Nodwyd fod y Cynghrydd Gwyndaf Morgan wedi cael llawdriniaeth ar ei benglin yn ddiweddar a bod y Cynghorydd Dai Evans yn sâl. Dymunwyd gwellhâd buan i'r ddau.

## 45 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo, fel rhai cywir, cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 1af o Fedi 2016.

## 46 Materion yn Codi o'r Cofnodion

### a) Cynllun Mabwysiadu Llwybrau

Dywedodd y Cadeirydd y cafwyd sesiwn hyfforddiant buddiol iawn y prynhawn hwnnw gan Osian Jones, Swyddog Mynediad Cymunedol y Cyngor Sir gan chwech gwirfoddolwr ac y byddai'r gwaith o gynnal a chadw'r llwybrau cyhoeddus a ddynodwyd gan y Cyngor Sir yn cychwyn maes o law.

### b) Cynhadledd Un Llais Cymru

Soniodd y Cynghorydd John Lumley am y Gynhadledd a'r Cyfarfod Blynyddol yr aeth ef a'r Clerc iddo fe, gan gyfeirio'n benodol at araith Mr Mark Drakeford, yr Ysgrifennydd Cyllid a Llywodraeth Leol, ar ddyfodol llywodraeth leol yng Nghymru. Roedd wedi gwneud datganiad yn y Senedd ers hynny a nodwyd nad oedd y bwriad i ad-drefnu Cynghorau Sir yn mynd yn ei flaen. Serch hynny, roedd yna gynigion ar gyfer datblygu cynghorau bro a thref, gan gynnwys rhoi gorchymyn i'r Comisiwn Ffiniau i gychwyn adolygiad o ffiniau a threfniadau etholiadol cynghorau.

**c) Mynwent Eglwys Cilcennin**

Dywedodd y Cynghorydd  Iwan Thomas ei fod wedi dechrau trafod cais y Cyngor gyda'r Ficer a byddai'n adrodd nôl maes o law.

## 47 Cyllid

**PENDERFYNWYD** talu'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Ystâd y Goron | £50 |
| Cyflog y Clerc: Gorff-Awst-Medi | £257.02 |
| CThEM(TWE) | £64.25 |
| Relax Gardens (Torri porfa) | £150 (y Clerc i gadarnhau ei fod yn debyg i swm y llynedd cyn ei dalu). |

## 48 Cyfrifon Blynyddol 2015-16 – Ardoddiad yr Archwilwyr Allanol

Adroddodd y Clerc fod yna Adroddiad Archwiliad diamod wedi'i dderbyn gan Archwilwyr Allanol y Cyngor, Grant Thornton, mewn perthynas â Chyfrifon 2015-16. Esboniodd y Clerc mai hwn oedd yr archwiliad cyntaf i'w wneud dan ofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwiliadau 2015, a oedd wedi gosod disgwyliadau ychwanegol ar y Cyngor wrth ddychwelyd ei gyfrifon. Roedd angen talu sylw i ddau fater o hyd, sef:

- llythyr ymrwymiad gan yr archwilydd mewnol
- monitro sefyllfa ariannol, incwm a gwariant y Cyngor yn erbyn y gyllideb yn ystod y flwyddyn.

**PENDERFYNWYD** nodi'r gwybodaeth ac i ofyn i'r Clerc sicrhau fod holl ofynion y Rheoliadau newydd yn cael eu cwrdd yn ystod y flwyddyn gyfredol ac yn y dyfodol.

## 49 Canolfan Rhyng-genedlaethau

Rhoddwyd ystyriaeth i wahoddiad i dderbyn cyflwyniad ar y Ganolfan Rhyng-genedlaethau arfaethedig yn Aberaeron.

**PENDERFYNWYD** gwahodd cynrychiolydd i ddod i'r cyfarfod nesaf.

## 50 Cyfarfod Ymgynghorol Cyngor Sir Ceredigion

Rhoddwyd ystyriaeth i wahoddiad i benodi cynrychiolwyr i fynd i gyfarfod ymgynghorol gyda chynrychiolwyr Cyngor Sir Ceredigion am 6.30 pm ar nos Lun 7 Tachwedd ym Mhenmorfa - ac i gynnig eitemau ar gyfer eu trafod.

**PENDERFYNWYD** penodi'r Cadeirydd a'r Cynghorydd Iwan Thomas i fynd i'r cyfarfod ac i gynnig y materion canlynol fel eitemau ar gyfer eu trafod:

- y berthynas rhwng y Cyngor Sir ac Un Llais Cymru
- amseriad toriadau i gyllidebau gwasanaethau'r Cyngor Sir yn ystod y flwyddyn ariannol e.e. sesiynau nofio ysgolion ym mhylloedd nofio'r Sir eleni
- cais y cyngor am gyfyngiad cyflymder 20 mya ar yr A482 yng nghyffiniau Ysgol Gynradd Ciliau Parc
- diweddariad ar y cynigion ar gyfer ad-drefnu addysg cynradd yn Nyffryn Aeron.

**51 Unrhyw Fater Arall**

Trafodwyd y canlynol:

a) Cafwyd diweddariad gan y Cadeirydd ar y camau a gymerwyd i ddosbarthu holiadur Pweru'r Dyffryn yng Nghiliau Aeron a'r sesiwn cyhoeddus a drefnwyd i drafod yr atebion a'r sylwadau fore Sadwrn. Nodwyd hefyd y gwaith a wnaed yng Nghilcennin.
b) Cafwyd diweddariad gan y Cadeirydd ar y sefyllfa presennol parthed y trefniadau i ddathlu'r ymfudo i Ohio.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.55 pm

<u>Dyddiad y cyfarfod nesaf: Nos Iau 3ydd o Dachwedd 2016</u>